Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Protocol ar gyfer Galwad gan Gynghorydd i Weithredu

# Ebrill 2023

**Cyflwyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 2000, fel y'i diwygiwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Canllawiau statudol a wnaed o dan adran 21A(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, fel y'i diwygiwyd gan Adran 63 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), yw'r Galwad gan Gynghorydd i Weithredu (GGW). Mae'r mesur hwn, a elwir yn GGW, yn galluogi unrhyw gynghorydd yn un o brif gynghorau Cymru i gyfeirio mater i bwyllgor trosolwg a chraffu sy'n ymwneud â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r cyngor, neu sy'n effeithio ar yr ardal etholiadol a gynrychiolir gan y cynghorydd neu ran ohoni. Mae hyn hefyd yn cefnogi dyheadau Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion a phrif egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys integreiddio, cydweithredu a chyfranogiad.

Mae Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru yn nodi y dylid deall y GGW fel dull "pan fetha popeth arall", gyda materion yn cael eu codi mewn pwyllgor craffu ar ôl ceisio datrys y mater drwy ddulliau eraill. Yn hyn o beth, dylai'r broses ei gwneud yn haws i glustnodi materion a fyddai'n elwa o fod yn destun craffu, a chyfeirio materion y gellid ymdrin â nhw'n well drwy ddulliau eraill yn unol â hynny.

Mae'r Canllawiau hefyd yn nodi na ddylid ystyried GGW fel proses 'graffu' yn unig. Yn hytrach, dylai cynghorau ei ystyried yng nghyd-destun gwneud gwelliannau yn fwy cyffredinol i ystod ehangach o swyddogaethau cyngor gyda'r nod o gefnogi gweithgarwch democrataidd cyfranogol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i aelodau yn eu rôl etholaethol yn ogystal â gweithgareddau fel prosesau cwyno ac ymgynghori sy'n casglu profiad a barn y cyhoedd.

**Ystyried dulliau eraill o ddatrys**

Gan yr argymhellir y dylid defnyddio GGW fel dull pan fetha popeth arall, dylai cynghorwyr ystyried a ellir datrys y mater yn anffurfiol yn y lle cyntaf. Gallai hyn gynnwys:

- Trafodaethau anffurfiol â swyddogion neu gynghorwyr eraill;
- Trafodaethau anffurfiol â chynrychiolwyr partner;
- Atgyfeirio materion at 'gyrff craffu' eraill;
- Trafodaethau ffurfiol â swyddogion a chynghorwyr;
- Llythyrau ffurfiol at Aelodau Cabinet;
- Cyflwyno cynnig gerbron y Cyngor llawn;
- Trefnu cyfarfodydd cyhoeddus;
- Defnyddio deisebau;
- Gwneud cwyn;
- Ceisiadau rhyddid gwybodaeth i gyrff eraill;
- Cyfathrebu ag Aelodau o'r Senedd neu Aelodau Seneddol lleol;

Nid yw hon yn rhestr gyflawn a gall cynghorwyr ddewis llwybrau gwahanol ar gyfer materion penodol.

**Eitemau sydd wedi'u heithrio rhag cael eu cyfeirio fel GGW**

Mae'r materion canlynol wedi'u heithrio rhag cael eu cyfeirio:

- Penderfyniadau cynllunio a thrwyddedu
- Unrhyw fater lle mae gan yr unigolyn hawl i adolygiad neu apêl (heb gynnwys yr hawl i gwyno i'r Ombwdsmon) e.e. mater sy'n ymwneud ag apêl Treth y Cyngor
- Unrhyw fater sy'n flinderus, yn wahaniaethol neu a allai fod yn anghyfreithlon.

**Cyflwyno GGW**

Os nad yw'r mater wedi'i ddatrys ar ôl mynd ar drywydd pob dull posibl arall, gall y cynghorwyr lleol ei gyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol trwy lenwi'r ffurflen yn Atodiad A a'i chyflwyno i'r Swyddog Priodol, sef y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd, a fydd yn cofnodi pob cais i olrhain ei gynnydd ac yn anfon copi at y swyddog craffu perthnasol.

Bydd y Swyddog Priodol yn cadarnhau a oedd yr atgyfeiriad yn bodloni'r gofynion a amlinellwyd uchod ai peidio, fel y gellir ei roi ar yr agenda i'w drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor.

**Ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Os yw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn derbyn atgyfeiriad gan aelod nad yw ar y pwyllgor, gall ddewis gwneud unrhyw un o'r pethau y gallai eu gwneud fel arfer gydag eitem newydd. Mae'r rhain yn cynnwys adolygu a chraffu ar benderfyniadau a chamau gweithredu, a llunio adroddiadau ac argymhellion.

> Wrth benderfynu a yw am wneud unrhyw un o'r pethau hyn, dylai pwyllgor "roi sylw" i ddau bwynt penodol:
>
> (i) unrhyw beth y mae'r aelod eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â'r mater, yn enwedig os cafodd ei rymuso i wneud hynny gan y cyngor o dan adran 56 Mesur 2011,
>
> a;
>
> (ii) sylwadau a wnaed gan yr aelod etholedig ynglŷn â pham y dylai'r pwyllgor ymgymryd â'r mater. Os yw'r pwyllgor yn penderfynu peidio ag ymgymryd â'r mater, rhaid iddo egluro ei resymau i'r aelod. Fodd bynnag, os yw'n dewis gwneud gwaith ar y mater, rhaid i'r pwyllgor wneud yn siŵr fod yr aelod etholedig yn derbyn copi o unrhyw adroddiadau neu argymhellion a wneir ganddo mewn perthynas â'r mater.

**FFURFLEN ATGYFEIRIO AR GYFER GALWAD GAN GYNGHORYDD I WEITHREDU**

Dylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio gan unrhyw gynghorydd sir a hoffai i bwyllgor craffu ystyried Galwad i Weithredu yn ardal eu ward etholiadol.

At sylw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
Gan: Y Cynghorydd ___________________________________
Ward: ____________________________________________

| **PWNC** | |
|---|---|
| **Manylion:** Eglurwch beth yw'r mater a sut mae'n effeithio ar eich ward. | |
| **Y camau a gymerwyd hyd yma:** Eglurwch pa gamau a gymerwyd, gyda phwy, i geisio datrys y mater. | |
| **Amserlenni:** A oes unrhyw derfynau amser yn gysylltiedig â'r mater y mae angen i'r pwyllgor trosolwg a chraffu fod yn ymwybodol ohonynt? | |
| **Strategaeth Gorfforaethol:** Nodwch sut mae hyn yn clymu mewn i Strategaeth Gorfforol y Cyngor | |
| **Y canlyniad disgwyliedig:** Disgrifiwch y canlyniad yr ydych yn gobeithio amdano trwy'r atgyfeiriad hwn. | |
| **Papurau ynghlwm:** Rhestrwch y dogfennau sydd ynghlwm a ddylai ddangos effaith y mater, y camau a gymerwyd ac unrhyw ymatebion a dderbyniwyd. | |
| Mae'r adran hon i'w chwblhau gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Dyddiad derbyn:<br>A yw'r atgyfeiriad yn bodloni'r gofynion angenrheidiol: Ydy / Nac ydy<br>Os 'nac ydy', nodwch y rhesymau isod.<br><br>Gohebiaeth a anfonwyd i'r cais ar y dyddiad: | |

**Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu hystyried pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'ch GGW**

- Cysylltiadau r Strategaeth Gorfforaethol
- A wnaed pob ymdrech resymol i ddatrys y mater? A yw'r ymatebion a dderbyniwyd yn dangos nad oes cynnydd yn cael ei wneud ar y mater?
- A yw'r pwyllgor wedi ystyried mater tebyg yn ddiweddar – os ydyw, a oedd yr amgylchiadau neu'r dystiolaeth wedi newid?
- A oes mater tebyg neu gysylltiedig sy'n destun adolygiad ar y rhaglen waith gyfredol? Efallai y byddai'n fwy priodol cysylltu'r mater newydd gydag adolygiad sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na chynnal GGW ar wahân. Dylid ystyried y pwysau amser perthnasol ar gyfer datrys y GGW.
- A yw pob maes gwasanaeth neu sefydliad partner perthnasol wedi'u hysbysu ac wedi cael digon o amser i ddatrys y mater? Pa ymateb ydych chi wedi'i dderbyn?
- A yw hwn yn achos sy'n cael ei drin neu y dylid ei drin drwy weithdrefn gwyno gorfforaethol y Cyngor?
- A yw'n ymwneud â mater neu benderfyniad "lled-farnwrol" megis cynllunio neu drwyddedu?
- A yw'r mater yn rhan o agenda bersonol (dylai mater o bryder lleol gwirioneddol gael effaith ar y gymuned leol)?
- A yw hwn yn fater sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan fath arall o graffu lleol?
- Ac, fel ym mhob achos craffu, a oes posibilrwydd y gallai craffu ar y mater arwain at lunio argymhellion y gellid eu rhoi ar waith yn realistig ac a allai gyflawni gwelliannau i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn eich ward?

**Ystyriwch a allai eich Atgyfeiriad gael ei ystyried yn gynamserol gan y Pwyllgor. Ystyriwch a aethpwyd ar drywydd dulliau posibl eraill cyn i atgyfeiriad gael ei wneud. Dylai aelodau fod yn ymwybodol os gwneir atgyfeiriad cynamserol, mae'r Pwyllgor yn debygol o wrthod ymdrin â'r mater, ar sail y meini prawf a amlinellir uchod. Os yw'r Swyddog Priodol yn credu bod yr atgyfeiriad yn gynamserol, bydd ef/hi yn eich hysbysu yn unol â hynny.**